
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	14.06.23
Pwnc / Subject:	Y Cynnig Llawn o ran Cymwysterau 14 i 16 yng Nghymru

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Rydym yn croesawu ychydig o'r cynigion; er enghraifft, mae'n ymddangos bod datblygu cymwysterau lefel 1 a 2 yn synhwyrol, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae gennym lawer o bryderon am agweddau fel y cymhwyster medrau cyfannol. Byddem yn annog Cymwysterau Cymru i sicrhau bod yr holl ysgolion a darparwyr, fel colegau addysg bellach, yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddulliau i gyd-greu cymwysterau galwedigaethol. Yn ychwanegol, byddem yn annog Cymwysterau Cymru i ailystyried mapio'r pedwar diben mewn cymwysterau. Mae'r pedwar diben wedi'u bwriadu i gael eu datblygu ar draws y cwricwlwm ac efallai nad yw'n fuddiol iawn creu cymwysterau i'w hasesu. Wrth ystyried y cynigion i ddatblygu'r cymwysterau hyn, byddem yn croesawu cyfle i fyfyrion ar b'un a oes angen pob un o'r cymwysterau a awgrymir. Gellir darparu llawer o'r agweddau trwy brofiadau dysgu difyr, ond nid oes angen eu cefnogi â chymhwyster o reidrwydd.

Mae pwyntiau allweddol i'w hystyried ymhellach yn cynnwys:

- Mwy o eglurder ynghylch trefniadau asesu, gan gynnwys asesiadau di-arholiad ac asesiadau digidol, ac effaith y rhain ar ddysgwyr a chanolfannau
- Rydym yn gwerthfawrogi'r symud cadarnhaol tuag at sicrhau bod yr asesiadau Cymraeg a Saesneg ar gael ar draws ystod lawn y cymwysterau. Bydd yn bwysig sicrhau bod adnoddau ategol ar gael yn y ddwy iaith ymhell cyn dechrau addysgu tuag at y cymwysterau newydd
- Rydym yn awgrymu bod yn rhaid rhoi mwy o ystyriaeth i hygyrchedd y cymwysterau hyn ar gyfer yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu heffeithio gan ffactorau economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn destun pryder penodol ar gyfer rhai pynciau ymarferol a gyda gweithredu asesiadau digidol
- Nid yw'r cynigion bob amser yn ystyried y costau posibl i ganolfannau a'u pwysau presennol o ran cyllideb, a goblygiadau ysgolion o bosibl yn recriwtio staff newydd â'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol am addysg alwedigaethol neu dechnegol a allai greu cystadleuaeth ddibwys gyda darparwyr eraill
- Nid yw'r cynigion yn ystyried y partneriaethau a'r cydweithio rhwng ysgolion a darparwyr eraill. Byddai'n bwysig sicrhau bod unrhyw gyd-creu yn cynnwys pob un o'r partneriaid dan sylw
- Nid yw'r cynigion yn ystyried y manteision na'r costau ar gyfer sefydlu partneriaethau newydd gyda darparwyr eraill, yn enwedig o ran y medrau ar gyfer gwaith a chymwysterau galwedigaethol
- Mae'r cymhwyster medrau cyfannol, gan gynnwys medrau ar gyfer bywyd, medrau ar gyfer gwaith a'r cynigion prosiect medrau cyfannol yn peri pryder. Byddai'n bwysig fod medrau cyfannol yn cael eu hintegreiddio mewn asesiadau a chymwysterau eraill. Mae hefyd yn bwysig nodi nad oes angen cymhwyster o reidrwydd ar lawer o'r medrau hyn. Nid ydym yn credu y byddai'n fuddiol datblygu cymhwyster yn gysylltiedig â chanllawiau CWRE, ac nid ydym yn teimlo ei bod yn fuddiol mapio'r pedwar diben i bob rhan o'r cymhwyster hwn.

Datganiad sefyllfa

Hoffai Estyn ymgymryd â thrafodaeth ehangach am y cynnig llawn ar gyfer dysgwyr 14-16 mlwydd oed. Dylai hyn gynnwys:

- Rôl cymwysterau a llwybrau dilyniant cyffredinol, galwedigaethol a thechnegol.

- Modelau cyflenwi partneriaeth rhwng ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant sy'n sicrhau cyngor ac arweiniad diduedd ar gyfer dysgwyr, a chyflwyno profiadau a chymwysterau galwedigaethol o ansawdd uchel.
- Ystyried p'un ai creu cymhwyster yw'r 'cyfrwng' gorau i ddilysu / dangos enghreifftiau o fedrau a phrofiadau ehangach dysgwyr yn gysylltiedig â'r medrau ar gyfer bywyd a gwaith.
- Trafodaeth bellach am lwybrau galwedigaethol a thechnegol ar gyfer dysgwyr o 14 oed ymlaen, a sut gall pobl ifanc gael addysg a hyfforddiant galwedigaethol a thechnegol i wneud dewisiadau gwybodus gwell ynglŷn â'u dilyniant i addysg bellach, hyfforddiant neu waith.

Mae'r cynigion yn ymwneud â'r unedau Medrau ar gyfer Gwaith wedi'u seilio ar ddefnyddio cynnwys pecyn cymorth ac arweiniad CWRE fel cynnwys i'w asesu mewn cymhwyster. Nid dyma oedd diben y pecyn cymorth na'r arweiniad a byddem yn cynghori yn erbyn y dull hwn oherwydd gallai fod yna ganlyniadau anfwriadol wrth greu cymwysterau ar lefel mynediad, lefel 1 a lefel 2 ar agweddau ar gyngor ac arweiniad diduedd a chynllunio gyrfa, a ddylai fod yn seiliedig ar ansawdd y cymorth a roddwyd a'r effaith ar helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus.

Yn yr unedau medrau ar gyfer bywyd, nid yw'r cynigion yn amlinellu sut y gellid defnyddio profiadau presennol a dyfarniadau anachrededig i gyflwyno profiadau o ansawdd uchel i bobl ifanc, fel cynllun Gwobr Dug Caeredin neu dystysgrifau cymorth cyntaf a gynigir trwy sefydliadau'r trydydd sector fel Ambiwlans Sant Ioan neu'r Groes Goch.

Nid ydym yn teimlo ei bod yn fuddiol ceisio mapio pob un o'r pedwar diben i'r cynigion cymhwyster. Bwriedir i'r pedwar diben gael eu datblygu ar draws y cwricwlwm ac mae eu hasesu fel rhan o gymhwyster yn ddi-fudd ac yn debygol o fod â chanlyniadau anfwriadol.

Dim ond yn fras y sonnir am bartneriaethau ysgolion â darparwyr neu sefydliadau eraill mewn cynllunio a chyflwyno'r gyfres o fedrau a'r cymwysterau cyn-alwedigaethol. Mewn sawl un o'n hadroddiadau thematig¹, rydym wedi nodi'r diffyg partneriaethau cadarnhaol / effeithiol rhwng ysgolion uwchradd a darparwyr eraill, yn enwedig colegau, darparwyr dysgu yn y gwaith neu gyflogwyr mewn helpu pobl ifanc i ennill y medrau hyn ar gyfer bywyd a gwaith, a bod yn wybodus i bontio i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Credwn y dylai'r cynigion ar gyfer cymwysterau cyn-alwedigaethol gael eu llywio gan yr adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol a fydd yn cael ei gyhoeddi yn yr haf. Nododd ein [hadroddiad thematig o'r cwricwlwm 16-19](#) nad yw pobl ifanc yn gwybod digon am lwybrau galwedigaethol - nodir hyn yn [adroddiad thematig 14-16](#) ar gyngor ac arweiniad diduedd a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru. Yn aml, mae hyn oherwydd bod staff mewn ysgolion nad ydynt yn gwybod digon am lwybrau

¹ [Partneriaethau rhwng ysgolion uwchradd a chyflogwyr](#) (2020); [partneriaethau rhwng ysgolion uwchradd a cholegau](#) (2021), [cyngor ac arweiniad diduedd i bobl ifanc 14-16 mlwydd oed](#) (2022); [adolygiad o'r cwricwlwm 16-19](#) (2022)

anacademaidd. Yn y gorffennol, gyda'r polisi llwybrau dysgu 14-19, roedd ysgolion a cholegau yn cael eu hariannu i gydweithio i ddarparu opsiynau galwedigaethol ar gyfer dysgwyr 14-16 mlwydd oed ar draws ardal leol. Er bod ein hadroddiad cwricwlwm 16-19 yn nodi bod gan ddysgwyr arlwy cwricwlwm ôl-16 eang a chytbwys lle ceir cynllunio tryloyw, effeithiol a strategol yn y perthnasoedd a'r cydweithio rhwng ysgolion a darparwyr eraill. Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson ledled Cymru ac mewn mwyafrif o ardaloedd awdurdodau lleol, mae'r cydweithio rhwng ysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, wedi lleihau, gan gyfyngu ar opsiynau ar gyfer dysgwyr.

Byddai'r cynigion yn elwa ar fwy o drafodaethau i ystyried ansawdd a graddau cyrsiau / profiadau presennol cyswllt ysgol-coleg neu'r rhaglen beilot prentisiaeth iau. Bydd Estyn yn adolygu yn nhymor yr hydref, ac ymhen amser, dylid ystyried deilliannau'r adolygiad thematig hwn.

At ei gilydd, byddem yn annog Cymwysterau Cymru i ailystyried y cynigion hyn yn sgil ein sylwadau, a byddem yn croesawu cyfle i ymgymryd â thrafodaethau manylach am sut orau y gellir datblygu cymwysterau neu brofiadau eraill i fod o fudd i'r holl ddysgwyr tra'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru hefyd.